Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **14 Awst 2018** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid (PSC) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (CY)<br>Dylan Davies, Adnoddau Dynol (DD)<br>Swyddog Staff, Gwyndaf Bowen (GB)<br>Swyddog Staff Jayne Butler (JB)<br>Miss Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau** | Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC) |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 24/07/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2315** | **Penderfyniad Diswyddo Gwirfoddol i gael ei drafod mewn sesiwn cau yn y BAP ar y 6ed o Awst.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2316** | **Trafod darpariaeth diogelwch y Pencadlys yng nghyfarfod Grŵp y Prif Swyddogion (GyPS).** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2317** | **Trafod cyfeiriad strategol yr Heddlu mewn perthynas â phlismona canol tref Llanelli yng nghyfarfod y GyPS.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2318** | **Claire Parmenter i adolygu'r penderfyniad ynghylch darpariaeth gorsaf Sir Gaerfyrddin.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2319** | **Y CHTh a'r PS i gyfarfod gyda Jo Hopkins mewn perthynas â chyllid yn lle'r Ardoll Brentisiaethau.** | **Yn parhau** |
| **PB 2320** | **Cyfleoedd ariannu yn ymwneud â fferm wynt Brechfa i symud ymlaen drwy'r RhAA trwy gyswllt â swyddogion perthnasol o'r Heddlu.** | **Yn parhau** |
| **PB 2321** | **Gwahodd Sarah Cooper a Martin Swain am gyfarfod i ddod i weld gweithgaredd braenaru.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2322** | **Trafodaeth gyda Ross Evans ynghylch ymwybyddiaeth swyddogion o'r Ddarpariaeth** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Fraenaru.** | |

| **PENDERFYNIADAU'N DEILLIO O GYFARFOD 14/08/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 76** | **Dyfarnu contract yswiriant i RMP tra'n disgwyl cymeradwyaeth y PSC.** | **Caffael** |
| **PB T2 77** | **Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth yr Iaith Gymraeg** | **Swyddog y Gymraeg** |
| **PB T2 78** | **Cytunodd yr holl Aelodau y dylid cymeradwyo'r llwybr caffael o ddefnyddio'r Fframwaith SCAPE. Mae hwn wedi cael ei ddyfarnu'n llwyddiannus i Wilmott Dixon, a fydd nawr yn cael ei benodi i fwrw ymlaen â cham cyntaf dichonoldeb y prosiect.** | **CY** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Cydnabuodd y PG a'r CHTh waith rhagorol y swyddog staff GB yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar ddiwedd ei gyfnod yn y swydd.

PB 2315- Penderfyniad Diswyddo Gwirfoddol i gael ei drafod mewn sesiwn cau yn y BAP ar y 6ed o Awst - Hysbysodd DD y Bwrdd bod saith o ymgeiswyr wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r cynllun hyd yn hyn. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan banel dan gadeiryddiaeth y DPG, a bydd proses apelio'n cael ei chynnal gan y PG. Nododd y Bwrdd mai'r dyddiad cau ar gyfer anfon ceisiadau yw'r 7fed o Fedi, cyn y cyfarfod Panel ar yr 17eg o Fedi. Bydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau erbyn y 1af o Hydref.

2316 -Trafod y ddarpariaeth diogelwch ar gyfer y Pencadlys yng nghyfarfod Grŵp y Prif Swyddogion (GyPS) - Nodwyd bod y DPG a'r CY wedi cyfarfod i drafod y costau ar gyfer y prosiect o adeiladu ffens berimedr o amgylch Pencadlys yr Heddlu.

**Cam gweithredu: Bwrdd Ystadau a Bwrdd Plismona'r dyfodol i ystyried achos busnes dros adeiladu ffens berimedr o amgylch Pencadlys yr Heddlu.**

2317 -Trafod cyfeiriad strategol yr Heddlu mewn perthynas â phlismona canol tref Llanelli yng nghyfarfod y GyPS. Nodwyd bod y PG yn ystyried cyfle cydweithredol amlasiantaethol yn Llanelli ar hyn o bryd; fodd bynnag, cyfaddefodd nad oedd angen darpariaeth swyddfa flaen HDP yng nghanol y dref oherwydd agosrwydd y ganolfan at orsaf heddlu bresennol HDP yn Llanelli. Tynnodd y PG sylw at adborth cadarnhaol gan drigolion yn y dref ynglŷn â'r cynnydd yn y Timau Plismona Bro. Cwestiynodd y CHTh ddarpariaeth bresennol HDP yng nghwmpasoedd canol y dref, a sut y gellid mwyhau nifer y patrolau yn yr ardaloedd hynny, yn dilyn cyfarfod rhwng y CHTh a phedwar o gynghorwyr tref Llanelli.

**Cam gweithredu - MH i roi manylion cyswllt cynghorwyr tref Llanelli i GB mewn perthynas â gweithio gyda'r Timau Plismona Bro yn ardaloedd amgylchynol Llanelli.**

2320 - Cyfleoedd ariannu yn ymwneud â Fferm Wynt Brechfa i symud ymlaen drwy'r Cynghorydd Ariannu Ariannol (CAA) trwy gyswllt â swyddogion perthnasol o'r Heddlu– Cafwyd trafodaeth ynghylch y cyfle ariannu mwyaf priodol i symud ymlaen ag ef.

**Cam gweithredu: CAA i ddiweddaru'r PSC ar gyfleoedd ariannu Fferm Wynt Brechfa**

PB 2322 - Trafodaeth gyda Ross Evans ynghylch ymwybyddiaeth swyddogion o'r Ddarpariaeth Fraenaru – Nodwyd bod y CAA a'r Cyfarwyddwr Comisiynu wedi ymweld â darpariaeth Fraenaru Sir Benfro yn gynharach yn yr wythnos.

**Cam gweithredu: Bwrdd Plismona i dderbyn adroddiad manwl ar y peilot Braenaru ym mis Hydref 2018.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Rhoddodd y PG ddiweddariad i'r Bwrdd ar dân yng Ngwesty'r Belgrave, Aberystwyth ar y 25ain o Orffennaf. Nododd y Bwrdd fod unigolyn wedi cael ei arestio am roi'r adeilad ar dân, a gafodd ei ddatgan yn ddigwyddiad mawr a thyngedfennol. Nododd y Bwrdd y byddai'r digwyddiad yn profi'n gostus iawn o ran gwarchod y safle a arweiniodd at gwestiynu pellach gan y CHTh. Cadarnhawyd bod y costau goramser cyfredol yn ymwneud â'r digwyddiad rhwng £8000 a £9000.

Rhoddodd y PG ddiweddariad i'r Bwrdd ar ddigwyddiadau eraill gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ddigwyddiad arfau saethu yng Nghaerfyrddin, anaf hunan-achosedig gyda chyllell yn Aberhonddu, ac ystryw Novichok yn Sir Benfro. Cydnabuodd y Bwrdd y dedfrydau carcharol yn ymwneud â phump o bobl ddrwgdybiedig oedd ynghlwm â'r ymosodiad ar unigolyn yn Aberystwyth, yn amrywio o 13 mis i 7 mlynedd.

### Diweddariadau Gweithredol

Rhoddodd y PG ddiweddariad i'r Bwrdd ar amrywiaeth o ddigwyddiadau sefydliadol a gafodd eu trafod yn fwy manwl yn ystod y diweddariad AD (eitem 6).

## 4. Diweddariad y CHTh

### Lleol

Dywedodd y CHTh ei fod wedi mynychu Sioe Frenhinol Cymru, a diolchodd i'r tîm gweithredol a ganiataodd iddo fynd gyda nhw ar ddyletswydd gyda'r nos yn

Llanfair-ym-muallt yn ystod y sioe.  Nododd y CHTh ei bod yn braf gweld y system teledu cylch cyfyng yn gweithio yn y dref.

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cyfarfod â'r Cynghorydd Phyll Davies yn Llandrindod, ac wedi estyn gwahoddiad iddo i ddod i HDP i ddiweddaru Awdurdod Unedol Powys ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd.

**Cam Gweithredu: SCHTh i roi manylion i'r Heddlu ynghylch gwahoddiad estynedig i HDP i ddiweddaru Awdurdodau Unedol Powys ar Blismona ar y Ffyrdd.**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cyfarfod â’r Cwnstabl Huw Freeman i archwilio cyfraniad posibl gan yr Elusen Safer Dyfed-Powys Diogel i gadetiaid HDP. Nodwyd bod y PS wedi derbyn adroddiad drafft gan y Cwnstabl Freeman o'r blaen mewn perthynas â'i gais am gyllid.

Cyfeiriodd y CHTh at gyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Adran Arfau Saethu, a chanmolodd y sicrwydd a roddir gan yr adran ar faterion cyfredol.

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad i’r Bwrdd am gyfarfod gyda chynrychiolydd o Orsaf Dân Caerfyrddin i drafod prosiect SWALES, sydd hefyd wedi cael ei drafod fel rhan o agenda Grŵp y Prif Swyddog (GyPS).

**Cenedlaethol**

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad i'r Bwrdd ar ei ymweliad ag Uned 2, Heddlu De Cymru mewn perthynas â gweithred a gyhoeddwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (BCTCG) i adolygu'r galluoedd dadansoddol ar draws Cymru.

**5. Adroddiad Diwydrwydd**

**a) Adnewyddu Yswiriant**

Cyfeiriodd y Bwrdd at gais i adnewyddu darpariaeth yswiriant HDP.  Deallwyd bod y darparwyr presennol, sef RMP, wedi gwneud cais eto am y contract, gydag argymhelliad gan dîm caffael HDP i dderbyn y cais.  Dywedodd y PSC gan fod y cynnig wedi cael ei drefnu mewn lotiau y gallai fod modd bod yn fwy detholus.

**Cam Gweithredu: PSC i drafod gyda thîm caffael HDP mewn perthynas â chais RMP am gontract.**

**Penderfyniad: Dyfarnu’r contract yswiriant i RMP, yn dibynnu ar gymeradwyaeth y PSC.**

**6. Pwnc Misol: AD (yn parhau)**

Rhoddodd DD ddarlun cyffredinol i'r Bwrdd o swyddogion HDP wedi'u ddadansoddi yn ôl rheng. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod nifer y swyddogion yn cael eu coladu a'u diweddaru'n awtomatig gan system TG bob dydd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch amrywiadau ariannol y secondiadau a'r cydweithrediadau. Nodwyd bod secondiadau'n cael eu hariannu'n allanol, a'u bod nhw'n cael eu cyflwyno gyda chytundeb secondio, sy'n nodi bod yr holl arian yn dychwelyd i'r Heddlu. Mae cydweithrediadau fel y rheiny gyda Tarian, UTTRh a'r CAS angen cyfraniad gan HDP, yn ogystal â chael eu cefnogi gan grantiau allanol mewn rhai achosion.

Cwestiynodd y CHTh fanteision cydweithio i HDP. Cytunwyd ei fod o fudd i HDP gael ôl troed mewn prosiectau cydweithredol cenedlaethol, a bod y risg y bydd swyddogion yn gofyn am gael dychwelyd i'w dyletswyddau arferol yn isel iawn ac yn hawdd mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag byddai risg i'r sefydliad os byddai toriadau sylweddol yn cael eu gwneud i gyllid grantiau penodol. Mae HDP yn elwa'n bennaf o gael eu swyddogion yn rhan o sefydliadau eraill.

Symudodd y drafodaeth ymlaen at gydgyllido, a nododd y Bwrdd bod y Bwrdd Cyllid Aur yn gweithredu ar hyn o bryd i greu mwy o dryloywder ynghylch cydgyllido.

Craffodd y CHTh ar y dadansoddiad o niferoedd y swyddogion a ddarparwyd gan DD, a gofynnodd pam fod rhai rhengoedd wedi'u gorstaffio ar hyn o bryd, er enghraifft ar hyn o bryd mae gan HDP 200 rhingyll yn erbyn y 193 awdurdodedig. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pwysigrwydd o gael rhywun i gyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch ac absenoldeb mamolaeth, a dywedodd y PG bod nifer o'r rhengoedd a nodwyd fel rhai wedi'u gorstaffio ar hyn o bryd yn ganlyniad i swyddogion yn cymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, er enghraifft, ar hyn o bryd, mae dau o'r Prif Arolygwyr yn rhan o'r prosiect Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACEs).

Cododd y PSC rywfaint o gwestiynau mewn perthynas â'r diffiniad o 'gyllideb awdurdodedig'. Cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i hyn er mwyn cael dealltwriaeth gyflawn a sicrhau rheolaeth ariannol sefydliadol.

**Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Comisiynu i ddarparu dadansoddiad ariannol o secondiadau ac ymrwymiadau cydweithredol.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch defnyddio uwch staff yr heddlu mewn rolau sydd yn cael eu cyflawni gan swyddogion ar hyn o bryd, fel y rôl rheolwr gwybodaeth presennol. Trafododd y Bwrdd yr anhawster o ddefnyddio dictefyddion sifil oherwydd y gofynion lefel PIP 1 a 2 llym oedd eu hangen i ddod yn ymchwilydd. Nododd y CHTh y byddai'n fuddiol i gynrychiolwyr adnoddau dynol ac iechyd galwedigaethol fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Bwrdd y Bobl.

Trafododd y Bwrdd ddylanwad derbyniad newydd mis Medi ar y niferoedd presennol yn strwythur y rhengoedd, yn ogystal â swyddogion yn gadael eu gwasanaeth ym mis Medi ac effaith y cynllun ymadael gwirfoddol. Dywedodd DD y byddai HDP ar lefel sefydliad o 1164 erbyn mis Medi. Nodwyd y byddai'r gwaith galw wedi cael ei gwblhau erbyn y cyfnod hwn, a fyddai'n arwain at gynllun sefydliad wedi'i gyllidebu gan yr adran Adnoddau Dynol ac wedi'i gostio'n

llawn, i gyd-fynd â'r gwaith ar gyfer cynllun hyfforddi wedi'i gostio'n llawn. Nododd y PS fod trafodaeth wedi cael ei chynnal gyda Bwrdd y Bobl ynghylch diffyg presennol o £25,000. Gofynnodd y PSC a oedd y grantiau arbennig a dderbyniwyd yn lle'r ardoll brentisiaeth yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn arbedion wedi'u cynllunio o ran hyfforddiant.

Trafododd y Bwrdd y broses ADP yn gryno, a fydd yn cael ei lansio ar y 1af o Hydref, gyda golwg ar gwblhau'r cofnodion erbyn 31 Mawrth, 2019. Bydd yr ADPau yn cael eu defnyddio law yn llaw â cheisiadau am ddyrchafiadau a swyddi.

Gofynnodd y CHTh i DD ystyried rheoli salwch o fewn HDP, gan fod lefelau salwch y staff yn uwch na rhai'r swyddogion ar hyn o bryd. Gofynnodd y CHTh a oes eiriolwr dros lesiant mewn grym o fewn yr Heddlu, a chafodd wybod bod y tîm Iechyd Galwedigaethol newydd benodi gweithiwr iechyd meddwl i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â straen.

**Cam gweithredu: AD/Cyfarwyddwr Comisiynu i roi ystyriaeth bellach i 'sefydliad awdurdodedig' er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol a sefydliadol.**

**Cam gweithredu: Y data AD a roddwyd i'r Bwrdd Plismona ar y 14eg o Awst i gael ei ddiweddaru a'i ddychwelyd i'r Bwrdd Plismona ar yr 18fed o Fedi.**

**Cam gweithredu: Bwrdd Plismona i dderbyn Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio yr Heddlu ar gyfer 2018/19.**

## 7. Eitemau Sefydlog

### a) Diweddariad ar Reoli Risg

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad, a nodwyd nad oedd angen gwneud unrhyw benderfyniad ar hyn o bryd.

### b) Toriadau Diogelu Data

Trafododd y Bwrdd dri achos a gafodd eu cyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) a fydd yn cael eu trafod y tu allan i'r Bwrdd Plismona gan y PG a'r CHTh.

## 8. Materion yn codi

### a) Mater brys – Goramser Cyllid Aur

Trafododd y Bwrdd sefyllfa HDP, sydd ar hyn o bryd wedi defnyddio 70% o'i gyllideb goramser ar gyfer 2018/19 yn ystod 5 mis cyntaf y flwyddyn ariannol.

Gofynnodd y PG am amser i adolygu gwariant gormodol ac i ystyried y sefyllfa ariannol gadarnhaol drwy'r Grŵp Aur, a rhoddodd wybod bod rhywfaint o arbedion yn ystod y flwyddyn eisoes wedi eu nodi. Dywedodd y PG y byddai cyfyngiad o ran goramser ar ôl y 1af o Fedi, ac y byddai'n rhaid gwneud ceisiadau drwy'r rheolwr aur ar dyletswydd.

**Cam gweithredu: Diweddariad Grŵp Cyllid Aur i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar yr 11eg o Fedi.**

**b) Strategaeth yr Iaith Gymraeg**

Mae SCHTh wedi ystyried y strategaeth ac yn gyfforddus â'r amlinelliad. Cododd y PS bryderon ynghylch y gyllideb a ddyrennir i wasanaethau cyfieithu, a chafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai'r SCHTh dalu am eu defnydd nhw o wasanaeth cyfieithu'r Heddlu.

**Cam gweithredu: PS i gyfarfod gyda PGC ynghylch gweithredu Strategaeth yr Iaith Gymraeg.**

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth yr Iaith Gymraeg.**

**c) Achos Busnes - Willmott Dixon**

Mae'r Achos Busnes wedi cael ei adolygu yn y gorffennol gan y CY a'r adran gaffael, cyn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Ystadau mewn fformat templed model pum achos. Argymhellodd y CY y dylai'r Bwrdd ddewis SCAPE, y nodir ei werth yn y cynnig a gyflwynwyd i'r Bwrdd Plismona, ynghyd â'i waith gyda Heddlu De Cymru ar adeiladu dalfeydd.

Gofynnodd y PSC am eglurder ynglŷn ag adnoddau ochr y cleient, gyda'r CY yn pwysleisio nad oes unrhyw rwymedigaeth ariannol ar hyn o bryd oherwydd bod cam cyntaf y contract ond wedi arwain at gost adeiladu a rhaglen adeiladu.

**Penderfyniad: Cytunodd yr holl Aelodau y dylid cymeradwyo'r llwybr caffael o ddefnyddio'r Fframwaith SCAPE. Mae hwn wedi cael ei ddyfarnu'n llwyddiannus i Wilmott Dixon, a fydd nawr yn cael ei benodi i fwrw ymlaen â cham cyntaf dichonoldeb y prosiect**

**Cam gweithredu: Ystyried gofynion adnoddau ochr y cleient a threfniadau llywodraethu.**

**9. Unrhyw Fusnes Arall**

Trafododd y Bwrdd gais Goleudy am dwf ychwanegol i ddelio gyda thrais domestig risg canolig.

**Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Comisiynu i drafod gydag Irene Davies Jones ynghylch yr adroddiad Goleudy.**

Nododd y Bwrdd y bydd y ddogfen Goleudy'n cael ei thrafod gydag Irene Davies Jones yng nghyfarfod Grŵp y Prif Swyddogion.

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 14/08/2018** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2324** | **Bwrdd Ystadau a Bwrdd Plismona'r dyfodol i ystyried achos busnes dros adeiladu ffens berimedr o amgylch Pencadlys yr Heddlu.** | **CY/MH** |
| **PB 2325** | **MH i roi manylion cyswllt cynghorwyr tref Llanelli i GB mewn perthynas â gwaith gyda'r Timau Plismona Bro yng nghwmpasoedd Llanelli.** | **MH** |
| **PB 2326** | **CAA i ddiweddaru'r PSC ar gyfleoedd ariannu Fferm Wynt Brechfa** | **CAA** |
| **PB 2327** | **Bwrdd Plismona i dderbyn adroddiad manwl ar y peilot Braenaru ym mis Hydref 2018.** | **CAA/ Cyfarwyddwr Comisiynu** |
| **PB 2328** | **SCHTh i roi manylion i'r Heddlu ynghylch gwahoddiad estynedig i HDP i ddiweddaru Awdurdodau Unedol Powys ar blismona ar y ffyrdd.** | **MH** |
| **PB 2329** | **PSC i drafod gyda thîm caffael HDP mewn perthynas â chais RMP am gontract.** | **PSC** |
| **PB 2330** | **CC i ddarparu dadansoddiad ariannol o secondiadau ac ymrwymiadau cydweithredol.** | **CC** |
| **PB 2331** | **AD/CC i roi ystyriaeth bellach i 'sefydliad awdurdodedig' er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol a sefydliadol.** | **AD/CC** |
| **PB 2332** | **Y data AD a roddwyd i'r Bwrdd Plismona ar y 14$^{eg}$ o Awst i gael ei ddiweddaru a'i ddychwelyd i'r Bwrdd Plismona ar yr 18$^{fed}$ o Fedi.** | **DD/MH** |
| **PB 2333** | **Bwrdd Plismona i dderbyn Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio'r Heddlu ar gyfer 2018/19.** | **MH** |
| **PB 2334** | **Diweddariad Grŵp Cyllid Aur i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ar yr 11$^{eg}$ o Fedi.** | **MH/CC** |
| **PB 2335** | **PS i gyfarfod gyda PGC ynghylch gweithredu Strategaeth y Gymraeg.** | **MH/GyPS** |
| **PB 2336** | **Ystyried gofynion adnoddau ochr y cleient a threfniadau llywodraethu.** | **CY** |
| **PB 2337** | **Cyfarwyddwr Comisiynu i drafod gydag Irene Davies Jones ynghylch yr adroddiad Goleudy.** | **Cyfarwyddwr Comisiynu** |